# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion EOC(3)-04-10

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Mawrth 2010**
**Amser: 09.30 - 11.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones, Dyffryn Clwyd (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Claire Morris, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol
### Eitem 2

Kay Jenkins, Scope Cymru

Ruth Scott, Scope Cymru

Kay Jenkins, y Comisiwn Etholiadol

Philip Johnson, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

Bob Screen, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau’r Pwyllgor a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### Eitem 2: Hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf - Tystiolaeth gan Scope Cymru

Papur: EOC(3)-04-10(p1)

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn unol â chais y Pwyllgor.

### Cam i’w gymryd

Y tystion i ddarparu gwybodaeth yn cadarnhau a oedd eu gwerthusiad yn dangos bod rhannau o Gymru yn cael gwasanaeth arbennig o dda neu ddrwg, a hefyd yn cadarnhau a oedd safon y gwasanaeth yn amrywio o fewn ardaloedd awdurdodau lleol.

### Eitem 3: Hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf - Tystiolaeth gan y Comisiwn Etholiadol

3.1 Ymatebodd Ms Jenkins i gwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

### Camau i’w cymryd

Ms Jenkins i ddarparu gwybodaeth ar ba awdurdodau lleol a ddangosodd arfer da o ran hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio.

Ms Jenkins i ddarparu gwybodaeth ar y gyfran o bobl anabl a ymatebodd i’r arolwg ar etholiad Ewrop 2009, ac ar nifer y bobl hynny a

ddywedodd eu bod yn fodlon â'r trefniadau.

## Eitem 4: Hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf - Tystiolaeth gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Y tystion i ddarparu gwybodaeth ar nifer yr arolygwyr gorsafoedd pleidleisio a gyflogwyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru, pa awdurdodau lleol oedd heb ymateb i'r cais am wybodaeth gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, pa awdurdodau lleol sydd bellach yn cynnig hyfforddiant ar hygyrchedd, a pha awdurdodau lleol sydd angen gwella eu perfformiad.

Copïau o safonau perfformiad y Comisiwn Etholiadol ar gyfer swyddogion canlyniadau i'w dosbarthu ymysg aelodau'r Pwyllgor.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau